ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun pontio cynradd–uwchradd

## Gwybodaeth i ysgolion

## Cyd-destun

Mae *Cymraeg 2050* yn gosod targedau hirdymor ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg a Chymraeg fel a ganlyn.

| Nifer yr athrawon ysgol gynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwaelodlin 2015/16**<br>2,900 | **Targed 2021**<br>3,100 | **Targed 2031**<br>3,900 | **Targed 2050**<br>5,200 |
| **Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu Cymraeg fel pwnc** | | | |
| **Gwaelodlin 2015/16**<br>500 | **Targed 2021**<br>600 | **Targed 2031**<br>900 | **Targed 2050**<br>1,200 |
| **Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | |
| **Gwaelodlin 2015/16**<br>1,800 | **Targed 2021**<br>2,200 | **Targed 2031**<br>3,200 | **Targed 2050**<br>4,200 |

Yn fras, rydym yn recriwtio nifer digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg i'r sector cynradd i allu cyrraedd targed 2021. Fodd bynnag, mae cyrraedd targedau 2021 ar gyfer y sector uwchradd yn her, ac mae angen ffocws penodol ar gynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu Cymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Nod y cynllun

Nod y cynllun yw cynyddu nifer yr athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae data yn awgrymu bod gwarged o athrawon cymwysedig i addysgu yn y sector cynradd. Felly, y bwriad yw datblygu a threialu cwrs pontio gan dargedu athrawon sydd â statws athro cymwysedig (SAC) i addysgu yn y sector cynradd, i dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn trosi i addysgu yn y sector uwchradd.

### Strwythur darparu

Bydd y gefnogaeth yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth rhwng ysgolion a darparwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) dros gyfnod o dymor ysgol. Cynhelir peilot yn ystod tymor yr haf 2020 yn cychwyn ar 20 Ebrill.

Bydd pedwar diwrnod o gefnogaeth yn cael eu darparu gan y darparwyr AGA ar y themâu canlynol.

- Rheolaeth dosbarth.
- Ymddygiad pobl ifanc yn eu harddegau.
- Lles yr athro a datblygu dycnwch.
- Rheoli amser/llwyth gwaith.
- Cynllunio gwersi – trosolwg.
- Cwricwlwm newydd – trosolwg.
- Mewnbwn ieithyddol yn ôl angen yr unigolion.

Bydd ysgolion yn gyfrifol am ddarparu ystod o brofiadau a chefnogaeth a fydd yn darparu datblygiad proffesiynol i unigolion ar y canlynol.

- Mewnbwn pynciol.
- Marcio ac adborth.
- Cynllunio gwersi.

Bydd gan bob unigolyn fynediad i gefnogwr proffesiynol o fewn yr ysgol a fydd yn gyfrifol am gynnal deialog proffesiynol am ddatblygiad gyda'r unigolyn bob pythefnos ac i fod yn cefnogi mewn gwers unwaith y pythefnos.

Bydd disgwyl i'r unigolion fod yn addysgu gwersi o Wythnos 2 ymlaen gydag amserlen yn cynyddu o 30% i 70% dros y tymor.

## Amserlen arfaethedig yr unigolion

| | **Amser addysgu** | **Cefnogaeth AGA/y tu allan i'r ysgol** |
|---|---|---|
| Wythnos 1 | Dim addysgu | 1 diwrnod AGA |
| Wythnos 2 | Hyd at 30% o addysgu | 1 diwrnod AGA |
| Wythnos 3 | 30 - 50% o addysgu | ½ diwrnod – mewnbwn ieithyddol – yn ôl anghenion yr unigolion |
| Wythnos 4 | 30 - 50% o addysgu | 1 diwrnod mewn ysgol uwchradd cyfagos |
| Wythnos 5 | 50% o addysgu | |
| Wythnosau 6 – 12 | Amser addysgu yn cynyddu'n raddol o 50% – 70% | Wythnos 6 – 1 diwrnod AGA<br>Wythnos 7 – 1 diwrnod mewn ysgol uwchradd cyfagos (yn ôl yr angen)<br>Wythnos 8 – ½ diwrnod – mewnbwn ieithyddol – yn ôl anghenion yr unigolion<br>Wythnos 12 – ½ diwrnod AGA i ad-fyfyrio ar y cynllun |

## Hyfforddiant

Darperir hanner diwrnod o hyfforddiant i'r cefnogwyr proffesiynol cyn diwedd tymor y gwanwyn.

## Gwerthuso'r cynllun

Bydd diwrnod ad-fyfyrio yn cael ei gynnal ar ddiwedd y cynllun, gyda hanner diwrnod yn cael ei neilltuo i'r cefnogwyr proffesiynol ddod ynghyd â'r darparwyr AGA i roi adborth, a hanner diwrnod yn cael ei neilltuo i'r unigolion ar lefel rhanbarthol.

## Proses recriwtio a dethol

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog sydd yn cynnig llwybrau cyfrwng Cymraeg hyd at TGAU i fod yn rhan o'r peilot trwy broses ymgeisio. Mae ffurflen gais ar y wefan a gofynnir i chi lenwi hwn erbyn y dyddiad cau, sef 6 Rhagfyr 2019.

Bydd Llywodraeth Cymru ac ysgolion yn hysbysebu am unigolion i fod yn rhan o'r cynllun. Mae hysbyseb generig ar gael i ysgolion i'w addasu.

Bydd unigolion yn gwneud cais i fod yn rhan o'r cynllun trwy ffurflen gais Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i ysgolion a fydd unigolyn(ion) wedi ymgeisio i weithio o fewn ysgol benodol erbyn 24ain o Ionawr.

Bydd angen i ysgolion hysbysu Llywodraeth Cymru erbyn 29ain o Ionawr o'u bwriad i gyfweld neu gyfeirio nol i'w hystyried ar gyfer ysgol arall.

Bydd ysgolion yn trefnu cyfweld â'r unigolion yn y cyfnod rhwng y 3ydd a'r 14eg o Chwefror. Mae cwestiynau ar gyfer y cyfweliad wedi cael eu llunio.

Bydd unigolion cymwys yn cael cynnig lle ar y cynllun drwy'r ysgol a bydd yr ysgol yn parhau a'r broses recriwtio e.e. gofyn am eirdaon, trefnu DBS a chytundeb a.y.b.

Bydd unrhyw unigolion aflwyddiannus yn cael adborth wrth yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ynglŷn a chanlyniad y broses gyfweld cyn gynted â phosib.

## Cyllido'r cynllun

Bydd pob ysgol sydd yn rhoi lleoliad i unigolyn ymgymryd â'r cynllun yn derbyn £3,000 at gostau'r cefnogwr proffesiynol a chostau eraill ynghlwm â chefnogi'r unigolion.

Bydd pob unigolyn yn derbyn cyflog ar y raddfa briodol am dymor ysgol. Bydd yr unigolion yn cael eu talu gan yr ysgolion, a Llywodraeth Cymru yn di-golledi'r ysgolion.

WG39526
© Hawlfraint y Goron, 2019